Gwahoddiad i dendro

Ar gyfer creu gwefan a mewnrwyd newydd i Rhieni dros Addysg Gymraeg

www.rhag.cymru

Gorffennaf 2021

Cenhadaeth RhAG

Amcan y mudiad yw hyrwyddo addysg Gymraeg yng Nghymru fel ei bod yn hygyrch i bawb a'i mynno.

Cyflwyniad i RhAG: ein gwaith a'n hamcanion

Mae RhAG yn gorff sy'n cynrychioli rhieni sydd am i'w plant gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ers 2006 rydym wedi derbyn grant oddi wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ac ers 2013 gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi ein galluogi i gyflogi Cyfarwyddwr Datblygu sy'n cynnig cefnogaeth i'r grwpiau gwirfoddol sydd wedi eu sefydlu ar draws Cymru. Yn 2020 dyfarnwyd cyllid ychwanegol i gyflogi ail swyddog yn rhan amser tan Fawrth 2022 i weithio gyda'r awdurdodau lleol drwy gynnig cefnogaeth ddwys ar eu gwaith i hyrwyddo a chynllunio wrth baratoi gogyfer â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg y 10 mlynedd nesaf.

Mae RhAG yn credu, fel y gwna strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*, mai addysg drochi mewn ysgolion Cymraeg yw'r model sy'n cyflwyno orau sgiliau cyflawn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae RhAG wedi datblygu arbenigedd mewn addysg Gymraeg, gyda rhwydwaith o aelodau ar draws Cymru sy'n gallu cynghori a helpu awdurdodau lleol ac adrannau'r Llywodraeth ar ddatblygu a gwireddu cynlluniau i ddarparu addysg Gymraeg. Mae gan RhAG rôl bwysig i gynrychioli rhieni sydd a diddordeb mewn addysg Gymraeg ac yn gweithredu fel dolen gyswllt rhwng rhieni ac ysgolion Cymraeg a llywodraeth leol a llywodraeth ganol.

Mae rôl y mudiad wedi newid yn sylweddol ar draws y blynyddoedd, wrth i nifer yr ysgolion Cymraeg gynyddu, ac wrth i addysg Gymraeg gael ei derbyn yn gyffredinol.

Mae'n gydnabyddedig fod maes addysg yn góg allweddol ym mheirianwaith datblygiad yr iaith Gymraeg ac mae polisi Cymraeg 2050, yn datgan yn glir bod 'addysg yn ganolog i'r weledigaeth honno'. Rhagwelwn mai ym maes addysg Gymraeg y bydd modd cael y cynnydd mwyaf arwyddocaol o ran nifer siaradwyr hyderus yr iaith.

Mae cylch gorchwyl a gweithgarwch RhAG yn ymwneud yn uniongyrchol â blaenoriaethau strategol *Cymraeg 2050*:

1. Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu: rhoi'r cychwyn gorau yn yr iaith i'n plant drwy gynyddu cefnogaeth i deuluoedd drosglwyddo'r iaith yn y cartref.
2. Y blynyddoedd cynnar: ehangu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.
3. Addysg statudol: creu system addysg statudol sy'n cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus.

Mae gweithgarwch RhAG felly'n cyfrannu'n uniongyrchol at weledigaeth Llywodraeth Cymru o safbwynt y Gymraeg, sef cyfrannu tuag at y seilwaith sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc gaffael yr iaith. Yn naturiol, rhieni yw ein prif randdeiliaid ac mae gwaith y mudiad ynghlwm â chynyddu'r nifer o rieni wirfoddolwyr sy'n cyfranogi yn ein gwaith, gan gynyddu'r ymwybyddiaeth a'r dealltwriaeth am fanteision dwyieithrwydd, yn ogystal â dyfnhau'r ymrwymiad at addysg Gymraeg, ac yn sgil hynny gynyddu'r galw.

Gwneir hynny mewn amryfal ffyrdd, gan gynnwys gweithio i: gynyddu niferoedd ysgolion Cymraeg; cynyddu'r galw am addysg Gymraeg; cefnogi'r 22 Awdurdod Lleol a chynnig cefnogaeth i'r Fforymau addysg sirol ar gyfer datblygu cynllun gweithredu CSGA; parhau i gynnal trafodaethau adeiladol â'r Siroedd gyda'r nod i annog cynllunio rhagweithiol o safbwynt creu'r galw am addysg Gymraeg; rhannu gwybodaeth a phrofiad a chydweithio mewn partneriaeth gyfannol gyda mudiadau eraill i hyrwyddo manteision addysg Gymraeg a dwyieithrwydd i do newydd o rieni trwy godi ymwybyddiaeth am fanteision addysg Gymraeg; cynyddu'r diddordeb mewn addysg Gymraeg ac ysgogi cynnydd yn nifer y disgyblion ac wrth sefydlu ysgolion newydd.

Bellach mae RhAG yn gorff sy'n ymgynghori ag awdurdodau addysg, ac yn crisialu dyheadau rhieni er mwyn cynghori ar sut i ddatblygu addysg Gymraeg.

Gwneir hyn

- trwy gadw cyswllt agos â rhieni, gan cynnig gwybodaeth am addysg Gymraeg ar ein gwefan a thrwy ddulliau eraill,
- trwy gadw cyswllt agos â swyddogion Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg
- trwy gynnal cyfarfodydd cyson ag awdurdodau lleol i drafod Cynlluniau Addysg Gymraeg
- gyflwyno gwybodaeth fanwl o'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad i swyddogion y Llywodraeth ac awdurdodau lleol
- gynnal ymchwil ymysg rhieni ac ysgolion mewn gwahanol siroedd, e.e. effaith cludiant ar addysg Gymraeg, y galw am addysg Gymraeg mewn ardal benodol.
- roi cyhoeddusrwydd am addysg Gymraeg yn y wasg a'r cyfryngau.
- trwy gynnal cynhadledd a chyfarfodydd blynyddol er mwyn rhoi'r cyfle i rieni drafod a chymharu profiadau ar lawr gwlad.
- gynhyrchu taflenni gwybodaeth i hyrwyddo ysgolion Cymraeg newydd.
- dynnu sylw rheini at y ffordd y gall addysg Gymraeg arwain at sicrhau bod pobl ifanc yn dod yn ddwyiethog.

Cyfle i dendro

Gwahoddir ceisiadau gan gwmnïau i dendro i greu Gwefan a Mewnrwyd newydd i RhAG. Bydd yr ystyriaethau canlynol yn flaenllaw wrth greu'r wefan:

- Gwefan ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)
- Gwefan sy'n hygyrch, yn syml ac yn rhwydd i'w defnyddio ac yn ymatebol ac addasol fel bod y wefan yn gweithio ar bob teclyn e.e. ffôn glyfar, llechen, gliniadur, PC ayyb.
- Addasrwydd y wefan i rieni i ddod o hyd i wybodaeth am addysg Gymraeg, lleoliadau blynyddoedd cynnar ac addysg cyfrwng Cymraeg oedran 0-18
- Adran Newyddion
- Gair o groeso gan y Cadeirydd
- Datganiad cenhadaeth ar y dudalen hafan: Cynllunio | Cynghori | Cefnogi
- Adran beth a pwy yw RhAG / ein Gwaith
- Adran newyddion
- Adran cylchlythyr (RhAGOLWG) ac archif ôl-rifynnau RhAGOLWG
- Adran polisi, cyfreithiau a strategaethau ynghlwm ag addysg Gymraeg (Llywodraeth Cymru ayb)
- Adran ar gyfer CSGAau a manylion y siroedd
- Archif ar gyfer ymatebion ymgynghoriadau, papurau polisi, ymchwil, adroddiadau ayb
- Adran hyrwyddo / rhyngweithiol (gofod ar gyfer adnoddau hyrwyddo - taflenni, fideos, gifs ayb)
- Adran FAQs, ffeithiau a data am addysg Gymraeg
- Adran ar gyfer dolenni i fudiadau eraill
- Adran ar gyfer manylion am ganghennau lleol
- Adran ymaelodi â RhAG (unigolion ac ysgolion)
- Dull o wneud cyfraniad ariannol i RhAG
- Dull o gofrestru i dderbyn gwybodaeth / ymuno â bas data
- Map rhyngweithiol ar gyfer canfod ysgolion gyda manylion cyswllt ar gyfer yr holl ysgolion
- Oriel ar gyfer lluniau (yn gysylltiedig â'r cyfrif Instagram?)
- Adran astudiaethau achos
- Cysylltu gyda ffrwd cyfryngau cymdeithasol (Twitter, Facebook, Youtube)
- Hysbysfwrdd: hysbysebu digwyddiadau a chyfarfodydd

Gyda hyn mewn golwg, gwahoddwn gwmnïau addas i dendro.

Manylion y tendr

Dylai cwmnïau gyflwyno portffolio byr trwy ebost i gefnogi eu cais i baratoi tendr gan amlinellu eu profiad a'u haddasrwydd.

Dylai'r cais gynnwys:

- Manylion y cwmni, ynghyd â'r staff fydd ynghlwm â'r gwaith
- Profiad blaenorol
- Dealltwriaeth o waith RhAG a chyd-destun addysg Gymraeg

- Costau
- Astudiaeth achos o brofiad blaenorol i atgyfnerthu eich cais

Fe ddylai'r cwmni fod yn barod i fynychu cyfweliad ar gyfer penderfynu ar y dyfarniad llwyddiannus heb godi ffî am hynny.

Manyleb gwefan/mewnrwyd RhAG

Cyffredinol

Mae'r wefan yn erfyn hyrwyddo a rhannu gwybodaeth hanfodol ar gyfer RhAG. Mae'r wefan yn cynnwys manylion cyswllt RhAG yn ganolog, adroddiadau, dogfennau a phapurau a gynhyrchwyd gan RhAG, rhifynnau ein cylchlythyr RhAGOLWG, datganiadau i'r wasg ac eitemau newyddion. Mae'n hanfodol bod y wefan (a'r fewnrwyd newydd) yn caniatáu rheolaeth lawn a syml i ddefnyddwyr RhAG gan ganiatáu perfformio tasgau yn syml ac yn rhwydd. Prif gynulleidfa darged RhAG yw darpar rieni, rhieni a gofalwyr sy'n chwilio am gyngor, cefnogaeth a gwybodaeth am addysg Gymraeg a manteision dwyieithrwydd.

Mae'r rhieni hyn yn amrywiol: darpar rieni a rhieni sy'n dechrau ar y daith o ymchwilio i fanteision addysg Gymraeg, rhieni sydd eisoes â phlant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn chwilio am gyngor a chefnogaeth, rhieni sy'n chwilio am gefnogaeth ar agweddau penodol megis apeliadau mynediad i ysgolion a/neu gludiant, aelodau o'r cyhoedd sy'n chwilio am wybodaeth gyffredinol am addysg Gymraeg, ymchwilwyr a mudiadau tebyg i RhAG mewn gwledydd eraill gyda ieithoedd lleiafrifol, newyddiadurwyr ac aelodau'r wasg, Aelodau Senedd Cymru a'u haelodau staff, unrhyw un arall sy'n ymddiddori mewn addysg Gymraeg.

Datblygwyd y wefan bresennol rhai blynyddoedd yn ôl ac mae dirfawr angen diweddaru'r adnodd erbyn hyn.

Amcanion

Gan ein bod yn edrych i ail-lunio'r wefan ein hamcanion yw:

- Cynyddu nifer yr ymwelwyr i'r wefan
- Cynyddu ymwybyddiaeth am RhAG ac ymddangos yn uwch mewn rhai chwiliadau Google
- Gwella presenoldeb ar-lein gyda gwefan hygyrch, modern sy'n hawdd i'w defnyddio
- Creu ffynhonnell / hwb gwybodaeth cyfannol a hygyrch ar gyfer rhieni gyda'r gallu i'w cyfeirio at fudiadau eraill all eu cefnogi ar y daith ieithyddol
- Cysylltu'r wefan newydd gyda gwefan w*elsh4parents.cymru*
- Galluogi rhieni ac aelodau'r cyhoedd i gysylltu â RhAG yn rhwydd
- Creu mewnrwyd ar gyfer aelodau staff RhAG ac aelodau'r Pwyllgor Cenedlaethol
- Symud tuag at CMS mwy generig/safonol sy'n haws ei addasu wrth i ni ddatblygu fel elusen
- Gwella cyflymder y safle

Manyleb gyffredinol

• Meddalwedd prosesu testun WYSIWYG a ddylai fod yn hawdd i'w defnyddio

• Y gallu i fewnosod tablau, delweddau, gwahanol arddulliau math (ffont, lliw ac ati), a fideos YouTube,

• Gallu'r meddalwedd i addasu lluniau sy'n cael eu uwchlwytho i'r maint cywir a'u cywasgu o ran maint yn awtomatig.

• Rheoli uwchlwytho ffeiliau i ganiatáu llwytho gwahanol fathau o ffeiliau e.e. PDF, Excel, Word, Publisher ayyb.

• Dylai'r rhyngwyneb a phrosesu testun fod yn gwbl ddwyieithog ac wedi'u haddasu ar gyfer defnyddio'r Gymraeg e.e. to bach a.y.y.b.

• Y gallu i olygu cynnwys Cymraeg a Saesneg mewn un lleoliad ond ei ddangos mewn tudalennau ar wahân

• Y gallu i ychwanegu tudalennau a/neu adrannau newydd gan ddefnyddio templedi gosodiad

• Y gallu i gymeradwyo cynnwys tudalen gan ddefnyddiwr lefel 'gweinyddwr' (admin) cyn i'r cynnwys ymddangos yn 'fyw'

• Pan gaiff y cynnwys ei greu/golygu, y gallu i'r safonwr (moderator) weld unrhyw newidiadau a amlygir mewn lliw gwahanol

• Cyfeiriadau tudalennau i fod yn hawdd i ddefnyddwyr a pheiriannau chwilio eu darganfod

• Google Analytics wedi'i gynnwys ar bob tudalen/adran

• Gweinyddu aml-lefel yn seiliedig ar awdurdodiad grwpiau defnyddwyr

• Cyfleuster chwilio effeithiol er mwyn chwilio pob rhan o'r system CMS gan ddefnyddio geiriau allweddol

• Y gallu i uwchlwytho ffeiliau CSV (neu amgen) er mwyn diweddaru cronfeydd data

• Staff RhAG i allu newid testun ar dudalen we unigol ac uwchlwytho lluniau ac ati.

• Y gallu i rannu tudalennau drwy Facebook, Twitter, Google +, e-bost, ac ati.

• Opsiynau allbwn sy'n gyfeillgar i argraffyddion ac ebyst

• Cysylltiad â phroffiliau cyfryngau cymdeithasol RhAG ar bob tudalen.

• Dylai'r dudalen fod â dyddiadau dod i ben y gellir eu haddasu

• Darparu porthiant (feed) RSS ar gyfer yr holl gynnwys

• Tudalen gartref hyblyg y gellir ei haddasu i amlygu meysydd gwaith.

Dyluniad

• Yn ffres, yn fodern, gyda edrychiad glân ac yn hawdd i'w ddefnyddio, gan adlewyrchu lliwiau logo RhAG. Byddem yn fodlon i'r dylunwyr gael rhyddid creadigol yn hyn o beth mewn cydweithrediad agos gyda RhAG.

• Dylai'r dyluniad edrych yr un fath ar bob porwr, Firefox, IE, Chrome. Dylai'r wefan hefyd fod yn ymatebol ac felly'r un mor addas i'w defnyddio ar dabledi a dyfeisiau symudol ag ar gyfrifiadur.

Cynnwys

Bydd RhAG yn gyfrifol am greu a darparu'r holl destun ar gyfer y cynnwys ac yn rhoi sêl bendith ar y cynnwys hwnnw wrth i'r broses ddylunio fynd rhagddo.

Mae rhai delweddau ar gael ond byddem yn disgwyl i'r dylunydd adnabod a chanfod delweddau addas i'w cynnwys lle'n briodol.

Modiwlau CMS

Cyswllt

Proffil safonol ar gyfer pob defnyddiwr, gan gynnwys enw cyswllt, cyfeiriad, e-bost, rhif ffôn.

Map rhyngweithiol: chwilio am ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar / Ysgol Gymraeg

• Map y gellir ei chwyddo (zoomable), rhyngweithiol sy'n dangos darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd penodol wrth i'r defnyddiwr nodi ei god post

• Wrth glicio ar y ddarpariaeth dylai ddangos enw, cyfeiriad, oriau agor, manylion cyswllt.

Mewnrwyd

Yr un fath o ran delwedd, cynllun a defnydd a'r tudalennau gwe arferol (o ran y CMS a'r tudalennau blaen) ond bod angen cyfrinair i'w weld ac felly ar gyfer aelodau RhAG yn unig. Bydd aelodau staff, aelodau'r Pwyllgor Cenedlaethol yn gallu cael mynediad i'r mewnrwyd. Bydd angen sefydlu trefn o gofrestru defnyddwyr gyda'r gweinyddwr yn awdurdodi a rheoli hynny. Bydd angen creu dashboard ar gyfer defnyddwyr gyda system ffeilio / adrannau ar gyfer dogfennau ayb.

Newyddion

• Seiliedig ar galendr

• Fersiynau wedi'u talfyrru o'r eitemau newyddion diweddaraf, gyda dolenni yn arwain at erthygl lawn

• Y gallu i atodi PDF (neu fersiynau fformat eraill) i erthyglau newyddion yn ogystal â'r gallu i arddangos clipiau fideo

• Y gallu i hidlo'r newyddion yn ôl gwahanol adrannau gwaith RhAG e.e. polisi a.y.y.b

• Y gallu i archifo newyddion yn awtomatig, rhannu dogfennau/adnoddau

• Y gallu i uwchlwytho adnoddau, ffurflenni, dogfennau PDF/ Word fel 'ychwanegiad' (Add-on) i wahanol adrannau o'r wefan/mewnrwyd

• Cyfleuster rhagolwg cyn ei lawrlwytho i'w ddefnyddio

• Y gallu i uwchlwytho adnoddau gweledol a sain

• Y gallu i sgrolio drwy'r ddogfen ar-lein heb orfod lawrlwytho (tebyg i issuu)

• Yn gysylltiedig â chyfrif PayPal ar gyfer prosesu taliadau aelodaeth

• Y gallu i hidlo eitemau yn ôl poblogrwydd A i Y

Welsh4Parents (adran i rieni – opsiynol – dylid rhoi pris ar wahân am yr adran yma)

• Ardal / fforwm drafod i rieni

Y gallu i ychwanegu lluniau

• Unrhyw syniadau eraill gan y cwmni?

Manylebau technegol

• System rheoli cynnwys safonol (CMS) e.e. WordPress, Drupal, Joomla

Bod modd i ni fel y gweinyddyr allu golygu'r testun ar bob tudalen trwy'r CMS.

• Diogelu hir dymor o'r CMS ('future proofing')

• Y gallu i ddiweddaru/uwchraddio i fersiynau'r dyfodol

• Gallu i fudo cynnwys i lwyfan gwahanol

• Disgwyliwn i'r safle a'r systemau ategol fod yn addas i bwrpas am o leiaf 5 mlynedd

Wrth gwrs, rydym yn agored iawn i glywed am syniadau a allai fod o fudd i'r prosiect hwn (technolegau newydd, methodoleg, arfer gorau rhyngwladol ayyb).

Hyfforddiant cychwynnol, 'hosting', cynnal a chadw, cymorth a digon o le storio

I'w cynnwys yn y cynnig ac i adlewyrchu hyfforddiant yn ystod cyfnod Covid.

Amserlen

Gwahoddir cwmnïau i gyflwyno cais yn dilyn y cynghorion uchod erbyn 12.00yp, Dydd Gwener 16 Gorffennaf 2021 gyda chyfweliadau i gwmnïau addas i'w trefnu cyn diwedd Gorffennaf.

Disgwylir i'r cwmni llwyddiannus fod yn barod i gwrdd â staff allweddol fydd yn cydweithio ar y prosiect yn rheolaidd gan gael braslun o'r wefan a'r fewnrwyd yn eu lle erbyn diwedd mis Medi 2021. Am fanylion pellach cysyllter â: Ceri McEvoy ceri@rhag.cymru / Elin Maher elin@rhag.cymru

Gwefannau enghreifftiol i dynnu sylw atynt:

Parents for French / Friends of French Quebec: https://cpf.ca/en/

Mudiad Meithrin: https://www.meithrin.cymru/